Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.*
*We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.*

**Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr / Chief Executive's Directorate**
Deialu uniongyrchol / 01656 643148 / 643147 / 643694
Gofynnwch am / Gwasanaethau Democrataidd

Ein cyf / Our ref:
Eich cyf / Your ref:

**Dyddiad/Date:** Dydd Mawrth, 4 Ebrill 2023

Annwyl Cynghorydd,

**CYNGOR**

Cynhelir Cyfarfod Cyngor yn cael ei gynnal fel cyfarfod hybrid yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Stryd Yr Angel, Penybont Ar Ogwr CF31 4WB ar **Dydd Mercher, 12 Ebrill 2023** am **16:00**.

**AGENDA**

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
   Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.

2. Datganiadau o fuddiant
   Derbyn datganiadau o fuddiant personol a rhagfarnus gan Aelodau/Swyddogion yn unol â'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.

3. Cymeradwyaeth Cofnodion — 5 - 46
   Derbyn cofnodion 1/3/23 a 15/3/23 i'w cymeradwyo

4. I dderbyn cyhoeddiadau oddi wrth:
   (i) Maer (neu'r sawl sy'n llywyddu)
   (ii) Aelodau'r Cabinet
   (iii) Prif Weithredwr

5. Derbyn cyhoeddiadau gan yr Arweinydd

6. Y Cynllun Llesiant Ar Gyfer Cwm Taf Morgannwg — 47 - 88

7. Derbyn y Cwestiynau canlynol gan:

**Cwestiwn gan y Cyng Tim Wood i Aelod y Cabinet dros Adfywio**

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr wedi gwario swm sylweddol o arian cyhoeddus, yn gyntaf yn cynnal ymgynghoriad ac yna'n llunio adroddiad ac wedyn cynnal proses ymchwilio i'r posibilrwydd o agor rhan fechan o Ganol Tref Pen-y-bont ar Ogwr i draffig unwaith eto.

Yr ymgynghoriad hwn, yn ôl yn 2016, ysgogodd yr ymgysylltiad cyhoeddus mwyaf yn hanes y cyngor hwn ac roedd y cyhoedd yn frwd eu cefnogaeth i ail-agor canol y dref yn rhannol.

Fel y cyfryw, a wnaiff Aelod y Cabinet dros Adfywio gytuno ein bod ni fel cyngor yma i wasanaethu'r cyhoedd, i fod yn stiwardiaid da o'r pwrs cyhoeddus a'n bod yma i galonogi a chynnal canol ein trefi, nid eu rhwystro?

Felly, a wnaiff Aelod y Cabinet dros Adfywio roi manylion i mi am eu cynlluniau i wneud Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr yn hygyrch i bawb?

**Cwestiwn gan y Cyng Alex Williams i Aelod y Cabinet dros y Cymunedau**

A wnaiff Aelod y Cabinet dros y Cymunedau ddatganiad am y cymorthdaliadau y mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn eu rhoi ar hyn o bryd i gefnogi'r llwybrau bysiau hynny a gafodd eu hystyried yn fasnachol anhyfyw; a wnaiff amlinellu pa ystyriaeth a roddwyd i leihau'r cymorthdaliadau hyn neu eu tynnu'n ôl yn llwyr; a pha ddadansoddiad gafodd ei wneud o'r hyn y byddai gostyngiad o'r fath, neu dynnu'r cymorthdaliadau yn ôl, yn ei olygu o bosibl i'r bobl yn y cymunedau oedd yn arfer derbyn llwybrau cymorthdaledig o'r blaen?

**Cwestiwn gan y Cyng Tim Thomas i Aelod y Cabinet dros y Cymunedau**

Beth mae Aelod y Cabinet yn ei wneud i sicrhau bod ffyrdd a phriffyrdd CBSP yn hygyrch i'r henoed a'r anabl?

**Cwestiwn gan y Cyng Ian Williams i Aelod y Cabinet dros Adfywio**

A wnaiff Aelod y Cabinet dros Adfywio roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am ba fesurau sy'n cael eu cymryd i adfer yr adeiladau adfeiliedig niferus yng nghanol ein tref a beth yw'r amserlen ar gyfer y gwaith adfer hwn?

8. Materion Brys

Ystyried unrhyw eitem(au) o fusnes y mae hysbysiad wedi'i roi yn ei gylch yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) o Reolau Gweithdrefn y Cyngor ac y mae'r sawl sy'n llywyddu'r cyfarfod o'r farn y dylai oherwydd amgylchiadau arbennig fod. a drafodwyd yn y cyfarfod fel mater o frys.

Nodyn: Bydd hwn yn gyfarfod Hybrid a bydd Aelodau a Swyddogion mynychu trwy Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr / o bell Trwy Timau Microsoft. Bydd y cyfarfod cael ei recordio i'w drosglwyddo drwy wefan y Cyngor. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643147 / 643148.

Yn ddiffuant
**K Watson**

Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol

**Dosbarthiad:**

| | | |
|---|---|---|
| Cynghorwyr | Cynghorwyr | Cynghorwyr |
| S Aspey | J Gebbie | J E Pratt |
| H T Bennett | W R Goode | E Richards |
| A R Berrow | RM Granville | R J Smith |
| F D Bletsoe | H Griffiths | JC Spanswick |
| S J Bletsoe | S J Griffiths | I M Spiller |
| JPD Blundell | D T Harrison | T Thomas |
| E L P Caparros | M L Hughes | JH Tildesley MBE |
| N Clarke | D M Hughes | G Walter |
| RJ Collins | RM James | A Wathan |
| HJ David | P W Jenkins | A Williams |
| C Davies | M R John | AJ Williams |
| C L C Davies | M Jones | HM Williams |
| P Davies | MJ Kearn | I Williams |
| S Easterbrook | W J Kendall | MJ Williams |
| M J Evans | M Lewis | R Williams |
| N Farr | J Llewellyn-Hopkins | E D Winstanley |
| P Ford | RL Penhale-Thomas | T Wood |